

GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/PROFESSIONAL LEARNING GRANT

2018 - 2019

Ysgol/School	YSGOL PENTREUCHAF
Swm a ddyrannwyd/ Allocated Sum	£1,810

Amlinelliad o'r bwriadau/ <i>Outline of intentions</i>	<ul style="list-style-type: none">• Gwella gallu disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn drawsgwricwlaidd wrth brosiectau integredig sy'n seiliedig ar brofiadau bywyd go iawn.• Bydd yr ysgol yn hybu arferion meddwl a chydweithio sy'n creu dysgwyr gydol oes.• Datblygu athrawon i fod yn ymchwilwyr gweithredol mewn meysydd Asesu Ffurfiannol a Meddylfryd o Dwf.• Gwella diwylliant ysgol gyfan i fod yn ysgol sy'n wybodus ynghylch Trawma ac Iechyd Meddwl.• Staff yr ysgol i gydweithio ag ysgolion y clwstwr / uwchradd er mwyn hybu arferion da a symud yr agenda o sefydlu cwricwlwm newydd ar y cyd.
---	--

Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/	<ul style="list-style-type: none">• Cynnydd yn hyder ac arbenigedd athrawon i arwain, arbrofi a datblygu arferion addysgu da iawn yn eu dosbarthiadau a lledaenu arferion da ar draws yr ysgol.• Cynnydd yn hyder a sgiliau staff yr ysgol wrth allu delio gydag agweddau o Iechyd Meddwl.• Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol yn fwy ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau.• Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu adnabod cyfleoedd i ddysgu'n fwy creadigol ac yn manteisio arnynt.• Bydd staff yr ysgol yn fwy gwybodus am goblgiadau 'Dyfodol Llwyddiannus' (Pennod 5: Addysgeg):<ul style="list-style-type: none">- "...Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gweld bod eu dysgu'n berthnasol i'r byd y tu allan i'r ysgol a bod cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau â'r byd hwnnw'n cael eu gwireddu."- "...Mae addysgu a dysgu da yn cymhell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu
--	---

<p><i>Expected Impact and Outcomes</i></p>	<p><i>hunain.”</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - <i>“...Mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio...Y gallu i weithredu'n effeithiol fel aelod o dîm yw un o'r sgiliau allweddol y bydd cyflogwyr yn cyfeirio ato'n aml fel un sy'n hanfodol yn y gweithle modern.” Mae'r adroddiad yn cyfeirio at “...amrywiaeth o dystiolaeth o ymchwil sy'n dangos bod dysgu gyda chyfoedion yn cael effeithiau cadarnhaol ar gymhelliant, datrys problemau a chyflawniad.</i> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd gan staff yr ysgol well dealltwriaeth o anghenion plant sydd wedi dioddef o drawma neu straen. • Drwy gydweithio a rhieni - grŵp targed o ddisgyblion wedi dilyn rhaglen ymyrraeth bwrpasol. • Holiaduron / trafodaethau gyda'r grwp targed a'u rhieni yn dangos gwelliant mewn agweddau megis sgiliau cymdeithasol; trafod emosiynau; hunan ddelwedd.
--	---

Gwerthuso/Evaluation

<p><i>Beth sydd wedi gweithio'n dda/What worked well</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yr ysgol yn dechrau dod yn fwy gwybodus am oblygiadau 'Dyfodol Llwyddiannus' yn enwedig ym maes Addysgeg (Pennod 5) • Llawer o blant yn dechrau gweld bod eu dysgu'n berthnasol i'r byd y tu allan i'r ysgol a bod cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau â'r byd hwnnw'n cael eu gwireddu.(Dyfodol Llwyddiannus) • Cyfarfodydd Staff rheolaidd er mwyn cyflwyno ac adolygu gwaith ymchwil / camau gweithredu yn gweithio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu. • Staff yr ysgol yn llwyddo i ddatblygu egwyddorion y Cwricwlwm trwy rannu neges gyda chynulleidfa 'go-iawn' gan ddefnyddio cyd-destun cyfoes a lleol a gwaith ymarferol e.e. prosiect Eco Brics y Cyfnod Sylfaen.
--	--

--	--

Yr Effaith a'r Canlyniadau/ <i>Impact and Outcomes</i>	<ul style="list-style-type: none">• Taith Ddysgu / Arsylwi yn nodi bod athrawon yn arsylwi eu gilydd wedi cael effaith gadarnhaol - [gweler adroddiad cyfansawdd.]• Taith ddysgu yn cadarnhau fod diwylliant o feddylfryd o dwf wedi gwreiddio drwy'r ysgol. Gwelir fod disgyblion yn:<ul style="list-style-type: none">○ fwy parod i ddysgu a mentro pethau newydd○ yn defnyddio ystod o eirfa e.e.. dyfalbarhau, trio pethau newydd, gwella dy hun ac ati ac yn deall eu pwysigrwydd mewn awyrgylch dysgu a thu hwnt○ llawer mwy annibynnol yn eu gwaith.
---	--

Y Cam Nesaf/ <i>Next stage</i>	Cydweithio a rhyddhau staff yr ysgol i fabwysiadu egwyddorion addysgeg Mantell yr Arbenigwr - Luke Abott a Hywel Roberts.
-----------------------------------	---